Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2024

Rhagfyr 2024

gov.wales

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG51052, ISBN digidol 978-1-83625-898-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Cynnwys

Rhagair ... 3

Cefndir ... 4

Cyfraddau treth Cymru ... 6

Cefndir ... 6

Cyfraddau Treth Incwm Cymru ... 6

Ffigur un: Cyfraddau Treth Incwm arfaethedig yng Nghymru, 2025-26 ... 7

Treth Trafodiadau Tir ... 8

Tabl un: Prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 10 Hydref 2022) ... 8

Tabl dau: Cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir (rhwng 22 Rhagfyr 2020 a 10 Rhagfyr 2024) ... 9

Tabl tri: Cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir (o 11 Rhagfyr 2024) ... 9

Tabl pedwar: Prif gyfraddau amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020) ... 10

Tabl pump: Cyfraddau rhent lesoedd amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020) ... 10

Treth Gwarediadau Tirlenwi ... 11

Tabl chwech: Cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (cyfradd fesul tunnell) ... 11

A. Cyflawni amcanion strategol y llywodraeth gan gynnwys ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ... 12

1. Datblygu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ... 12
2. Diwygio cyllid llywodraeth leol ... 14
3. Datblygu ardoll ymwelwyr ... 20
4. Datblygu'r achos dros ddatganoli treth mewn ffordd glir a sefydlog ... 22

5.Ystyried yr achos dros ddatblygu trethi amgylcheddol newydd i Gymru, gan weithio gyda Llywodraeth y DU lle y bo'n briodol ........ 23

B. Y gwaith parhaus o adolygu polisïau a'u rhoi ar waith mewn perthynas â'n trethi presennol a meysydd polisi cysylltiedig eraill ........ 25

6. Datblygu polisi treth trafodiadau tir ........ 25

7. Datblygu polisi treth gwarediadau tirlenwi ........ 29

8. Datblygu'r sylfaen drethu Gymreig ........ 33

9. Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ........ 37

C. Ffocws parhaus ar weithio gyda phartneriaid a dinasyddion er mwyn i'n dull Cymreig o ymdrin â threthi ymwreiddio, a chodi ymwybyddiaeth o drethi Cymru ..... 39

10. Rheoli trethi Cymru ar y cyd â'n partneriaid o fewn cyd-destun ehangach y DU ac yn rhyngwladol ........ 39

11. Cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o drethi yng Nghymru drwy weithgareddau ymgysylltu ehangach ........ 40

Atodiad 1:Talfyriadau ........ 44

Atodiad 2: Manylion cyswllt ........ 45

## Rhagair



Dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol ar Gynllun Gwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-26, sy'n cyflawni ein hymrwymiad i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu ar ein blaenoriaethau o ran polisi trethi.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu datblygiadau allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unol â'n dull tryloyw o ddatblygu polisi trethi yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau y gall partneriaid, pobl a busnesau nodi ble, pryd, a sut y gallant ymgysylltu â'n hagenda dreth orau, ac i gydweithio â ni i gyflawni ein blaenoriaethau o ran polisi trethi i Gymru ar y cyd.

Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys cyflawni'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio'r dreth gyngor, drwy basio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024, sy'n ddarn nodedig o ddeddfwriaeth. Mae hwn yn gam pwysig ymlaen tuag at ddarparu fframwaith trethi lleol mwy ymatebol er mwyn i Lywodraeth Cymru allu addasu systemau mewn ymateb i amgylchiadau sy'n newid.

Carreg filltir allweddol arall oedd cyflwyno'r Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) drafft gerbron y Senedd fis diwethaf Mae hyn yn cyflawni un arall o ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu.

At hynny, mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer o gamau gweithredu eraill a gymerwyd eleni, gan gynnwys gweithgareddau ymgysylltu, ymgyngoriadau cyhoeddus a newidiadau i'n trethi datganoledig.  Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol ichi. Mae croeso ichi roi mewnbwn, rhannu syniadau a mynegi eich barn ar unrhyw un o'r pynciau a drafodir yn yr adroddiad hwn drwy gysylltu â Thrysorlys Cymru drwy un o'r ffyrdd a restrir ar ddiwedd y ddogfen.



**Mark Drakeford AS**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**

## Cefndir

1. Mae tair treth wedi cael eu datganoli i Gymru – y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a Chyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC).

2. Mae'r tair treth hyn yn cynhyrchu refeniw yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, gyda'r gweddill yn dod o Lywodraeth y DU mewn grant bloc.

3. Mae'n hanfodol bod y trethi a ddatganolwyd i Gymru a'r ddwy dreth leol – y dreth gyngor ac ardrethi annomestig – yn cael eu gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, er mwyn cynhyrchu'r refeniw sydd ei angen i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig Cymru megis iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a seilwaith trafnidiaeth.

4. Mae ein Fframwaith Polisi Trethi[1] yn darparu sail i'n gwaith ar drethi yng Nghymru. Cyhoeddwyd ein diweddariad i'r Fframwaith Polisi Trethi[2] ym mis Tachwedd 2021 ac mae'n cynnwys ein pum egwyddor treth a'n ‘dull o lunio polisi trethi’. Mae ein hegwyddorion treth yn sicrhau bod y ffordd rydym yn datblygu ac yn cyflawni polisïau trethi yng Nghymru yn gyson ac yn gydlynol, ac yn cadarnhau y dylai trethi Cymru wneud y canlynol:

   - Codi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus sydd mor deg â phosibl.
   - Cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru.
   - Bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml.
   - Cael eu datblygu drwy gydweithredu ac ymwneud.
   - Cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru fwy cyfartal.

5. Mae'r diweddariad i'r Fframwaith Polisi Trethi yn nodi sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ystyried cynaliadwyedd, tegwch a chydraddoldeb wrth fynd i'r afael â'n blaenoriaethau.

6. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gwaith Polisi Trethi ar gyfer 2021-2026[3] ym mis Tachwedd 2021. Mae'r Cynllun Gwaith Polisi Trethi yn ddull

[1] Fframwaith polisi trethi | LLYW.CYMRU
[2] Y diweddariad ar y fframwaith polisi trethi | LLYW.CYMRU
[3] Cynllun gwaith polisi trethi 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU

pwysig o godi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid a phartïon eraill â diddordeb o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio iddo, ac mae'n eu galluogi i ymgysylltu â'r agenda dreth yng Nghymru.

7. Er mwyn galluogi rhanddeiliaid a phartneriaid i gydweithio â Llywodraeth Cymru , rydym yn cynnal cynhadledd dreth flynyddol sy'n cynnig cyfle i ystyried rhai o'r ffrydiau gwaith a'r materion eraill sy'n ymwneud â threth yn fanylach.

8. Mae'r Adroddiad Polisi Trethi hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran yr agenda polisi trethi yng Nghymru. Dyma'r pedwerydd adroddiad ers i Gynllun Gwaith Polisi Trethi 2021-2026 gael ei gyhoeddi, ac mae'n rhan o becyn o ddogfennau a gyhoeddwyd ar y cyd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26.

## Cyfraddau treth Cymru

### Cefndir

9. Cyflwynwyd y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar 1 Ebrill 2018, a chânt eu casglu a'u gweinyddu gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Cyflwynwyd CTIC ar 6 Ebrill 2019 a chaiff ei chasglu a'i rheoli gan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF).

### Cyfraddau Treth Incwm Cymru

10. Mae treth incwm wedi'i datganoli'n rhannol i Gymru. Felly, er bod Llywodraeth Cymru yn gallu amrywio'r tair cyfradd treth incwm (sylfaenol, uwch ac ychwanegol) ar gyfer trethdalwyr Cymreig[4], Llywodraeth y DU sy'n dal i fod yn gyfrifol am bob agwedd arall ar y dreth a CThEF sy'n parhau i weinyddu treth incwm yng Nghymru.


11. Fel rhan o'r broses, mae Llywodraeth y DU yn gostwng pob un o dair cyfradd treth incwm y DU ar gyfer trethdalwyr Cymreig 10c, ac yn gwneud gostyngiad cyfatebol i grant bloc Cymru, sy'n ariannu gwasanaethau cyhoeddus a ddatganolwyd i Gymru. Drwy bleidlais yn y Senedd, mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu a ddylid gosod CTIC ar 10c, a thrwy hynny sicrhau bod trethdalwyr yng Nghymru a Lloegr yn talu'r un gyfradd, neu osod cyfraddau gwahanol.

12. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod CTIC ar gyfer 2025-26 ar 10c, gan barhau â'r lefelau presennol. Rhaid i hyn gael ei gadarnhau gan y Senedd drwy gynnig cyn cytuno ar Gyllideb derfynol 2025-26.

13. Dengys Ffigur un y cyfraddau a'r trothwyon arfaethedig yn seiliedig ar drothwyon Treth Incwm a lwfansau personol 2025-26.

[4] Yn y rhan fwyaf o achosion, diffinnir trethdalwyr Cymreig fel pobl sy'n byw yng Nghymru. Fodd bynnag, ceir diffiniad llawn o dan a.8 o Ddeddf Cymru 2014: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/section/8/enacted

## Ffigur un: Cyfraddau Treth Incwm arfaethedig yng Nghymru, 2025-26



## Treth Trafodiadau Tir

14. Caiff cyfraddau a throthwyon y Dreth Trafodiadau Tir eu hadolygu'n barhaus. Cafodd y cyfraddau sy'n daladwy ar drafodiadau cyfraddau preswyl uwch eu cynyddu 1 pwynt canrannol ar gyfer pob band yn weithredol o 11 Rhagfyr 2024. Mae hyn yn golygu bod cyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir sy'n gymwys i eiddo preswyl ychwanegol a brynir yng Nghymru yn debyg i gyfraddau'r dreth gyfatebol, sef treth dir y dreth stamp, sy'n gymwys yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd hefyd yn golygu bod refeniw ychwanegol ar gael i ariannu gwariant cyhoeddus yng Nghymru.

15. Ni wnaed unrhyw newidiadau eraill i'r cyfraddau na'r trothwyon yn ystod y flwyddyn hon. Gwnaed newidiadau parhaol blaenorol i'r prif gyfraddau preswyl ym mis Hydref 2022 a, chyn hynny, ym mis Rhagfyr 2020.

### Tabl un: Prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 10 Hydref 2022)

| Trothwy prisiau | Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir |
|---|---:|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Dros £225,000 i £400,000 | 6% |
| Dros £400,000 i £750,000 | 7.5% |
| Dros £750,000 i £1,500,000 | 10% |
| Mwy nag £1.5m | 12% |

**Tabl dau: Cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir (rhwng 22 Rhagfyr 2020 a 10 Rhagfyr 2024)**

| Trothwy prisiau | Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir |
|---|---:|
| £0 i £180,000 | 4% |
| Dros £180,000 i £250,000 | 7.5% |
| Dros £250,000 i £400,000 | 9% |
| Dros £400,000 i £750,000 | 11.5% |
| Dros £750,000 i £1,500,000 | 14% |
| Mwy nag £1.5m | 16% |

**Tabl tri: Cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir (o 11 Rhagfyr 2024)**

| Trothwy prisiau | Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir |
|---|---:|
| £0 i £180,000 | 5% |
| Dros £180,000 i £250,000 | 8.5% |
| Dros £250,000 i £400,000 | 10% |
| Dros £400,000 i £750,000 | 12.5% |
| Dros £750,000 i £1,500,000 | 15% |
| Mwy nag £1.5m | 17% |

**Tabl pedwar: Prif gyfraddau amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020)**

| Trothwy prisiau | Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Dros £225,000 i £250,000 | 1% |
| Dros £250,000 i £1,000,000 | 5% |
| Mwy nag £1m | 6% |

**Tabl pump: Cyfraddau rhent lesoedd amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020)**

| Trothwy prisiau | Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir |
|---|---|
| £0 i £225,000 | 0% |
| Dros £225,000 i £2,000,000 | 1% |
| Mwy na £2m | 2% |

## Treth Gwarediadau Tirlenwi

16. Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn cynnig y dylid cynyddu cyfradd safonol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi i £126.15. Yn wahanol i'r dull blaenorol o bennu cyfraddau, caiff y gyfradd ei phennu i adlewyrchu newidiadau yn yr RPI gwirioneddol rhwng 2022 a 2024 yn well ar ôl sawl blwyddyn pan gafodd ei phennu ar sail RPI rhagamcanol. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â chynnydd Llywodraeth y DU yng nghyfradd safonol y Dreth Dirlenwi ac, felly, mae'n cyfyngu ar y cymhelliant dros dwristiaeth wastraff. Caiff y gyfradd anawdurdodedig ei chynyddu i gadw ei chyfradd ar 150% o'r gyfradd safonol.

17. Ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd ar gyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn cynnig y dylid cynyddu cyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi i £6.30. Mae'r cynnydd hwn yn y gyfradd is yn adlewyrchu bwriad polisi Llywodraeth Cymru i roi cymhelliant i ailddefnyddio, ailgylchu a lleihau gwastraff a lleihau unrhyw gymhelliant i gamddisgrifio gwastraff.

### Tabl chwech: Cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (cyfradd fesul tunnell)

| Cyfradd | O 1 Ebrill 2023 | O 1 Ebrill 2024 | O 1 Ebrill 2025 |
|---|---|---|---|
| Safonol | £102.10 | £103.70 | £126.15 |
| Is | £3.25 | £3.30 | £6.30 |
| Gwarediadau anawdurdodedig | £153.15 | £155.55 | £189.25 |

## A. Cyflawni amcanion strategol y llywodraeth gan gynnwys ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

### 1. Datblygu Cyfraddau Treth Incwm Cymru

**Diben**

18. Parhau i ystyried sut y gallai newidiadau posibl i Gyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) effeithio ar drethdalwyr Cymreig.

**Cefndir**

19. Cyflwynwyd CTIC ar 6 Ebrill 2019. Gostyngwyd cyfraddau'r DU ar incwm nad yw'n dod o gynilion na difidendau 10c ym mhob band ar gyfer trethdalwyr Cymreig a phennwyd cyfraddau Cymru ar 10c. Mae cynnal cyfraddau Cymru ar y lefel hon ym mhob band yn golygu y bydd trethdalwyr Cymreig yn talu'r un cyfraddau treth incwm cyffredinol â'r rhai yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

20. Mae gan Lywodraeth Cymru Gytundeb Lefel Gwasanaeth â CThEF ar gyfer casglu CTIC ar ran Gweinidogion Cymru. Mae Bwrdd CTIC, a gadeirir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a CThEF, yn goruchwylio'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cymru a CThEF. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn nodi gofynion a mesurau perfformiad ar gyfer rhoi CTIC ar waith. Caiff ei adolygu'n flynyddol.

21. Fel y'i nodwyd yn y Cytundeb, mae'n ofynnol i CThEF gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn ar y ffordd y mae'n gweinyddu CTIC. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am y ffordd y mae CThEF yn gweinyddu CTIC, gan gynnwys:

- Gweithgarwch cydymffurfiaeth (gan gynnwys sicrwydd cyfeiriadau).
- Casglu refeniw a rhoi cyfrif amdano.
- Gwasanaeth a chymorth i gwsmeriaid.
- Data ar gyfer pennu cyfraddau a rhagolygon.
- Data ar gyfer gwaith rheoli arian Llywodraeth Cymru.
- Costau rhoi CTIC ar waith, ac ailgodi tâl am gostau CThEF.

## Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

22. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn archwilio gwaith CThEF yn annibynnol er mwyn sicrhau llywodraethu da a gwerth am arian. Nododd yr adroddiad diweddaraf[5], a gyhoeddwyd ar 19 Ionawr 2024, fod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn fodlon ar y ffordd y mae CThEF yn gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru a bod y costau a delir gan Lywodraeth Cymru yn gywir ac yn deg.

23. Mae gweithgor dadansoddol ar dreth incwm ddatganoledig yn goruchwylio'r gwaith o ddadansoddi ystadegau ar dreth incwm ddatganoledig, gan gynnwys y cyhoeddiadau alldro. Mae'r gweithgor hwn yn cynnwys swyddogion o CThEF, Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Comisiwn Cyllidol yr Alban a Llywodraeth yr Alban.

24. Mae ystadegau alldro treth incwm yn nodi refeniw CTIC a'r refeniw cyfatebol ar gyfer gweddill y DU. Defnyddir y ffigurau hyn i gyfrifo'r addasiad i grant bloc Llywodraeth Cymru – sef y lleihad yn y cyllid gan Lywodraeth y DU i ystyried y refeniw y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cael yn uniongyrchol o'r trethi datganoledig.

25. Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddodd CThEF ei ail gyfres o ystadegau alldro yn ymwneud â CTIC[6]. Dangosodd yr ystadegau alldro mai'r refeniw o CTIC yn 2022-23 oedd £2,618 miliwn, sef cynnydd o 10.8% o gymharu â 2021-22. Cafodd y cysoniad ar gyfer 2022-23 a blynyddoedd blaenorol a'i effaith ar Gyllideb a chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 eu nodi mewn datganiad ar y cyd â Thrysorlys EF a gyhoeddwyd ar 3 Hydref 2024[7].

26. Rhagolwg CTIC ar gyfer 2025-26 yw £3,462m. Mae'r ffigur hwn £201m yn uwch na'r addasiad cyfatebol i'r grant bloc. Ynghyd â'r symiau cysoni o'r refeniw alldro ar gyfer 2022-23 a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, bydd CTIC yn gwneud cyfraniad cadarnhaol net gwerth £253m i gyllideb Llywodraeth Cymru yn 2025-26.

---

[5] Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru 2022-23 – adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
[6] Welsh Income Tax Outturn Statistics: 2022 to 2023 - GOV.UK
[7] Welsh Rates of Income Tax outturn reconciliation for 2022-23 - GOV.UK

27. Ar y cyd â ffigurau cyfatebol o £44m ar gyfer Treth Trafodiadau Tir a £19m ar gyfer Treth gwarediadau tirlenwi, rhagwelir y bydd y trethi datganoledig yn gwneud cyfraniad cyllidebol net cadarnhaol o £317m yn 2025-26.

28. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn llunio rhagamcanion o'r refeniw o drethi datganoledig, gan gynnwys CTIC, i Lywodraeth Cymru. Caiff ei Rhagolwg Trethi Cymreig diweddaraf ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru.

29. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu pennu CTIC ar gyfer 2025-26 ar 10c fesul band. Bwriedir i hyn gael ei gyflwyno gerbron y Senedd drwy gynnig cyn ystyried Cyllideb derfynol 2025-26.

30. Ar y cyd â'r Gyllideb Ddrafft, rydym wedi cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru o'r Canllaw Cyflym[8] ar gyfer CTIC. Mae'n rhoi amcangyfrifon o'r effaith y gallai newidiadau i bob un o dair Cyfradd Treth Incwm Cymru ei chael ar refeniw yn 2025-26 a 2026-27.

31. Mae'r fersiwn ddiweddaraf hon o'r Canllaw Cyflym yn ystyried gwaith dadansoddol CThEF yn seiliedig ar y set ddata hydredol, a'r elastigeddau newydd o'r astudiaeth o ymddygiadau mudol a gynhaliwyd yn yr Alban.

### Canlyniad a'r camau nesaf

32. Bydd CTIC yn parhau i gael eu rheoli drwy Fwrdd CTIC, gan gyfeirio at y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cymru a CThEF.

33. Caiff y broses hon ei llywio gan yr ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu, yn ogystal â rhagolygon trethi a'r rhagolygon economaidd a chyllidol ehangach.

## 2. Diwygio cyllid llywodraeth leol

### Diben

34. Gwella systemau cyllid llywodraeth leol a threthiant lleol er mwyn sicrhau eu bod yn decach ac yn fwy graddoledig, cynaliadwy a chywir ac, ar yr un pryd, barhau i gefnogi gwasanaethau lleol hanfodol fel addysg, gofal cymdeithasol, tai, trafnidiaeth leol, plismona a diogelwch cymunedol. Byddwn hefyd yn gwneud

[8] https://www.llyw.cymru/canllaw-cyflym-cyfraddau-treth-incwm-cymru-2025-i-2026

newidiadau a fydd yn cyfrannu at gyflawni ein huchelgeisiau ehangach ar gyfer Cymru gryfach, decach a mwy gwyrdd.

## Cefndir

35. Yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydym yn ymrwymo i sicrhau treth gyngor decach a mwy graddoledig. Mae ein rhaglen hefyd yn cynnwys ymrwymiadau eraill sy'n berthnasol i gyllid llywodraeth leol ac ardrethi annomestig, gan gynnwys dadlau dros ddatganoli trethi'n glir ac yn sefydlog i Gymru, sy'n cryfhau ymreolaeth ac effeithiolrwydd llywodraeth leol i'w gwneud yn fwy llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau ac yn lleihau'r baich gweinyddol ar lywodraeth leol.

36. O ran ardrethi annomestig, rydym yn parhau i roi cryn dipyn o gymorth drwy gynnig rhyddhad i fusnesau bach, y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, elusennau, y stryd fawr a lleoliadau gofal plant. Gwnaethom gynnal ymarfer ailbrisio a chyflwyno proses apelio newydd yn 2023 er mwyn diweddaru sylfaen drethu annomestig Cymru a sicrhau ei bod yn gywir o hyd ac rydym yn parhau i gefnogi busnesau drwy ddarparu rhyddhad trosiannol.

37. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024[9], a gymeradwywyd gan y Senedd ym mis Gorffennaf 2024, yn gam pwysig ymlaen yn ein taith tuag at systemau trethi lleol mwy effeithiol. Mae'r Ddeddf yn cynnig fframwaith mwy hyblyg ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i addasu systemau mewn ymateb i amgylchiadau sy'n newid ac yn lleihau ein dibyniaeth ar ddarpariaethau yn neddfwriaeth Llywodraeth y DU i newid systemau trethi lleol yng Nghymru mewn modd amserol.

## Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

38. Rydym yn cynnal gwefan storio[10] lle rydym yn cyhoeddi ymchwil sy'n ymwneud â'r trethi lleol. Ategir y diwygiadau graddol rydym wedi'u hamlinellu ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig gan sail dystiolaeth fanwl a gyhoeddwyd mewn Crynodeb o Ganfyddiadau[11] yn 2021. Gwnaeth y crynodeb hwn, a lywiodd y Rhaglen Lywodraethu, gymhwyso gwybodaeth newydd am amgylchiadau economaidd-gymdeithasol penodol Cymru at amrywiaeth o syniadau, o

[9] Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024
[10] Tystiolaeth ac ymchwil ar y Dreth Gyngor ac ardrethi annomestig | LLYW.CYMRU
[11] Diwygio cyllid llywodraeth leol yng Nghymru: crynodeb o'r canfyddiadau | LLYW.CYMRU

newidiadau cynyddrannol yn y byrdymor i'r tymor canolig, i opsiynau ar gyfer trefniadau amgen dros gyfnod hwy o amser.

39. Rydym wedi parhau i ychwanegu gwaith dadansoddi manwl at ein tystiolaeth, gan gynnwys:

- Asesiad manwl[12] gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid o ddulliau arfaethedig Llywodraeth Cymru o sicrhau treth gyngor decach a mwy graddoledig.
- Crynodeb[13] o'r ymatebion i ymgynghoriad Cam 2 Llywodraeth Cymru ynghylch treth gyngor decach, a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Chwefror 2024.
- Caiff canfyddiadau[14] ton 2024 Arolwg Omnibws Cymru o agweddau pobl at y dreth gyngor eu cyhoeddi maes o law.
- Datblygu'n gynyddol y data a ddelir gennym ar ardrethi annomestig a'r dreth gyngor er mwyn llywio dewisiadau polisi.
- Adroddiad blynyddol[15] ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

40. Rydym yn ymgysylltu'n rhagweithiol â phartneriaid mewn llywodraeth leol, yn Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac yn Nhribiwnlys Prisio Cymru, ynghyd ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol eraill gan gynnwys Cyngor ar Bopeth Cymru a chymunedau busnes, er mwyn trafod ein cynlluniau.

### Canlyniad a'r camau nesaf

### Treth gyngor decach

41. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024[16] yn nodi'r fframwaith ar gyfer diwygio'r dreth gyngor yng Nghymru yn y dyfodol wrth inni weithio tuag at sicrhau system decach a mwy graddoledig. Mae'r Ddeddf yn sefydlu cylchoedd ailbrisio pum mlynedd yn dechrau o fis Ebrill 2028, gan sicrhau y caiff y dreth gyngor ei diweddaru'n fwy rheolaidd nag sydd wedi digwydd yn y gorffennol, gan

[12] Assessing the Welsh Government’s consultation on reforms to council tax | Institute for Fiscal Studies
[13] Treth Gyngor Decach: cam 2 | LLYW.CYMRU
[14] Agweddau'r cyhoedd at y dreth gyngor: 2023 | LLYW.CYMRU
[15] Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor: adroddiadau blynyddol | LLYW.CYMRU
[16] Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024

ailddosbarthu atebolrwydd i dalu trethi yn ôl amodau economaidd-gymdeithasol. Roedd ymgynghoriad Cam 2 Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 14 Tachwedd 2023, yn ceisio barn ar nifer o ffyrdd o lunio bandiau'r dreth gyngor yn y dyfodol, yn amrywio o ddulliau Diwygio ar Raddfa Fach a Chymedrol a fyddai'n cadw'r naw brand presennol a'u gwneud yn decach, i ddull diwygio Ehangach â 12 o fandiau. Cafodd y dulliau hyn eu profi gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ac mae sylwadau manwl ar gael[4] ar y manteision a'r anfanteision. Ar ôl i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddatganiad [17]ar 15 Mai 2024 yn nodi'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

42. Mae ailbrisio 1.5 miliwn o eiddo ac ail-lunio system y dreth gyngor yn ddigwyddiad arwyddocaol i drethdalwyr a'n partneriaid cyflawni, gan gynnwys Asiantaeth y Swyddfa Brisio, Tribiwnlys Prisio Cymru a llywodraeth leol. Gan weithio gydag allbynnau data o Fodel Prisio Awtomataidd Asiantaeth y Swyddfa Brisio, a adeiladwyd at y diben hwn ac sydd wedi'i achredu'n rhyngwladol, rydym bellach wedi rhoi systemau ar waith sy'n darparu gwybodaeth gynhwysfawr am werthoedd eiddo cyfredol sy'n ein symud ymhellach ar hyd y llwybr tuag at sicrhau system decach erbyn 2028.

43. Yn ogystal â diwygiadau strwythurol i fandiau'r dreth gyngor, rydym yn bwrw ymlaen â nifer o gamau gweithredu eraill sy'n cyfrannu at gyflawni'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i wneud y dreth gyngor yn decach. Rydym yn adolygu gwahanol ddisgowntiau a gostyngiadau'r dreth gyngor er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben o safbwynt gweithredol a safbwynt polisi. Rydym hefyd yn bwriadu rheoleiddio erbyn diwedd tymor y Senedd hon i wella'r broses apelio er mwyn sicrhau ei bod yn symlach, yn fwy effeithiol ac yn haws i'w defnyddio.

## Ardrethi annomestig

44. Ar 29 Mawrth 2022[18], gwnaethom sefydlu rhaglen i ddiwygio ardrethi annomestig a gyflwynir yn ystod tymor y Senedd hon. Mae ein huchelgais i greu Cymru decach, wyrddach a chryfach yn sail i unrhyw newidiadau posibl i'r system ardrethi annomestig.

45. Gwnaethom lansio ymgynghoriad 12 wythnos yn ddiweddarach yn 2022 a oedd yn ceisio sylwadau ar ddiwygio ardrethi annomestig yng Nghymru. Ymdriniodd

[17] Datganiad Ysgrifenedig: Y diweddaraf am ddiwygio'r dreth gyngor (15 Mai 2024) | LLYW.CYMRU
[18] Datganiad Llafar: Diwygio ardrethi annomestig (29 Mawrth 2022) | LLYW.CYMRU

yr ymgynghoriad ag amrywiaeth eang o newidiadau arfaethedig i'r system ardrethi annomestig, gan gynnwys:

- Ailbrisiadau mwy rheolaidd.
- Y potensial i amrywio'r lluosydd.
- Llifau gwybodaeth gwell.
- Adolygu'r pecyn presennol o ryddhadau ac esemptiadau.
- Mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thwyll ac osgoi talu ardrethi annomestig.

46. Ar ôl cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad[19], gwnaed datganiad pellach ar 2 Mai 2023[20] a oedd adlewyrchu'r cynnydd a wnaed hyd yma, ac yn cadarnhau ein hymrwymiad i ddiwygio ardrethi annomestig yn ystod gweddill tymor y Senedd.

47. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 16 Medi 2024, yn rhoi'r sail ddeddfwriaethol sydd ei hangen i ddiwygio ardrethi annomestig yng Nghymru mewn ffordd ystyrlon ac mae hefyd yn cyflawni ein hymrwymiad i gynnal ymarferion ailbrisio bob tair blynedd.

48. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar greu system ardrethi sy'n amlwg yn well i Gymru, nid dim ond yn wahanol i'r un bresennol. Ym mis Mehefin 2024, gwnaethom sefydlu adolygiad o gynlluniau rhyddhad ardrethi annomestig dan arweiniad Alma Economics a bydd yr adolygiad hwn yn cyhoeddi ei ganfyddiadau yn ystod haf 2025. Rydym hefyd yn parhau i ystyried ffyrdd o leihau twyll yn y system dreth a nifer yr achosion o osgoi talu trethi ac yn ceisio defnyddio pwerau yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 mewn ffordd ymatebol i wneud newidiadau er mwyn lleihau nifer yr achosion hysbys o osgoi talu trethi yn y system.

49. Mae dulliau amgen o ymdrin ag ardrethi annomestig yn dal i gael eu hystyried ar gyfer y tymor hwy. Roedd yr ymgynghoriad ar ddiwygio ardrethi yn ceisio barn

---

[19] Ymgynghoriad ar Ddiwygio Ardrethi Annomestig – Crynodeb o'r ymatebion (Chwefror 2023) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-02/wg46978-crynodeb-ymatebion.pdf
[20] Datganiad Llafar: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddiwygio Trethi Lleol (2 Mai 2023) | LLYW.CYMRU

ar y posibilrwydd o gyflwyno treth gwerth tir leol ac mae'r ymatebion yn llywio gwaith pellach yn y maes hwn.

50. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024, sy'n ddarn nodedig o ddeddfwriaeth, yn ei gwneud yn bosibl inni gynnal rhaglen waith arwyddocaol ar drethi lleol sy'n rhychwantu sawl blwyddyn, gan gyflawni ein cynlluniau i sicrhau bod gennym systemau effeithiol, hyblyg ac ymatebol ar waith er mwyn i aelwydydd a busnesau gyfrannu at ariannu gwasanaethau lleol.

**Cyllideb Ddrafft 2025-26**

51. Mae'r gyllideb ddrafft yn cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod cap o 1% ar y cynnydd i'r lluosydd ardrethi annomestig yng Nghymru ar gyfer 2025-26. Mae'r ffigur hwn yn is na'r cynnydd o 1.7% (CPI mis Medi) a fyddai fel arall yn gymwys o ganlyniad i chwyddiant diofyn y lluosydd yn unol â CPI. Fe'i cyflwynir am gost flynyddol gylchol o £7m o 2025-26 ymlaen. Ar yr amod y bydd y Senedd yn cymeradwyo'r ddeddfwriaeth ofynnol, y lluosydd dros dro ar gyfer 2025-26 yw 0.568.

52. Gosod cap o 1% ar y cynnydd i'r lluosydd ardrethi annomestig yw'r lefel uchaf o gymorth y gellir ei roi gan ddefnyddio'r holl gyllid canlyniadol i Gymru sy'n deillio o benderfyniadau sy'n ymwneud â'r lluosydd a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref Llywodraeth y DU. Mae'n sicrhau y bydd pob talwr ardrethi nad yw'n cael rhyddhad llawn eisoes yn elwa.

53. Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £78m yn ychwanegol i roi cymorth am y chweched flwyddyn yn olynol i helpu busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch i dalu eu biliau ardrethi annomestig. Bydd talwyr ardrethi cymwys yn cael rhyddhad ardrethi annomestig o 40% ar gyfer 2025-26, wedi'i gapio ar £110,000 fesul busnes.

54. Bydd y mesurau hyn yn rhoi cymorth ychwanegol gwerth £85m i gyd ar gyfer 2025-26. Ynghyd â'r rhyddhadau parhaol presennol a ariennir yn llawn, sy'n werth £250m i fusnesau a thalwyr ardrethi annomestig bob blwyddyn, caiff £335m ei fuddsoddi mewn cymorth ardrethi annomestig.

## 3. Datblygu ardoll ymwelwyr

### Diben

55. Cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr fel y'i nodir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru[21].

### Cefndir

56. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein hymrwymiad i 'gyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll dwristiaeth'. Cafodd y gwaith hwn ei ddatblygu'n flaenorol mewn cydweithrediad â Phlaid Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio a ddaeth i ben yn 2024.

57. Defnyddir ardollau mewn llawer o wledydd er mwyn cefnogi twristiaeth gynaliadwy, gyda'r arian yn cael ei ailfuddsoddi mewn seilwaith a gwasanaethau lleol sy'n hanfodol i brofiad twristiaid. Lle maent yn cael eu defnyddio, maent yn darparu ffrwd refeniw bwysig er mwyn i ardaloedd lleol allu diogelu asedau naturiol, lleihau effeithiau ymwelwyr a gwella neu hyrwyddo arlwy twristiaeth.

58. Daeth yr ymgynghoriad ffurfiol i ben ar 13 Rhagfyr 2022. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori ym mhob rhanbarth yng Nghymru, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid.

59. Cawsom dros 1,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth o randdeiliaid. Cyhoeddwyd canlyniad yr ymgynghoriad ar 30 Mawrth 2023[22].Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd, Rebecca Evans AS, fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â chynlluniau i ddatblygu deddfwriaeth ynglŷn ag ardoll ymwelwyr[23].

60. Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig ar y cyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ar 12 Tachwedd 2024. Nododd datganiad ysgrifenedig y gweinidogion y byddai darpariaeth ar gyfer cynllun cofrestru cenedlaethol ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr yn cael ei chynnwys yn y bil ardoll ymwelwyr.

---

[21] Rhaglen lywodraethu: diweddariad [HTML] | LLYW.CYMRU
[22] Ardoll ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU
[23] Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar gynigion am ardoll ymwelwyr dewisol i Gymru (30 Mawrth 2023) | LLYW.CYMRU

61. Yn dilyn hynny, cafodd Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) ei gyflwyno gerbron y Senedd ar 25 Tachwedd 2024, gan gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ‘gyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll dwristiaeth.’

**Tystiolaeth a gwaith dadansoddi**

62. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad cyhoeddus, cafodd ymchwil defnyddwyr ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'i chynnal gan BVA BDRC i gasglu barn trigolion Cymru a defnyddwyr gwyliau domestig y DU ar yr ardoll ymwelwyr arfaethedig. Edrychodd ar farn trigolion a defnyddwyr ynghylch a ddylai ymwelwyr gyfrannu drwy ardoll, a ydynt yn fodlon talu ardoll ac a fyddent yn newid eu hymddygiad petai ardoll yn cael ei chyflwyno[24].

63. Cwblhaodd mwy na 2,500 o ymatebwyr yr arolwg; roedd 1,005 yn byw yng Nghymru. Ar y cyfan, roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cefnogi egwyddor ardoll ymwelwyr. Roedd mwyafrif (58%) o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai twristiaid gyfrannu at gostau cynnal a buddsoddi yn y cyrchfannau y maent yn aros ynddynt, gan godi ymhlith pobl sydd â llawer o dwristiaeth yn eu hardal – yng Nghymru (66%) a’r DU (72%) gyda dim ond 13% yn anghytuno.

64. Cyhoeddwyd ymchwil ychwanegol gan Brifysgol Bangor a ystyriodd effeithiau aneconomaidd ardollau ymwelwyr mewn awdurdodaethau eraill ar 25 Tachwedd ochr yn ochr â'r bil.

65. Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wedi gwneud ymchwil ar ran Gweinidogion Cymru i ddeall sut mae darparwyr llety ymwelwyr yn gweithredu ar hyn o bryd a llywio'r ffordd y byddai ardoll ymwelwyr yn gweithio yn ymarferol. Mae ymchwil defnyddwyr wedi'i chynnal gyda nifer o ddarparwyr llety ymwelwyr ledled Cymru. Mae'r gwaith hwn yn ein helpu i ddeall faint o ddarparwyr llety ymwelwyr sydd ledled Cymru a'r amrywiaeth o ddarparwyr llety sydd, a bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut y dylem fynd ati i lunio system gasglu effeithlon sy'n hawdd i'w defnyddio.

66. Cyflwynwyd y memorandwm esboniadol a'r asesiad effaith rheoleiddiol ochr yn ochr â'r cynigion deddfwriaethol ar 25 Tachwedd. Mae'n amlinellu'n fanwl y costau a'r manteision disgwyliedig sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth. Mae hyn yn

[24] Ymchwil ardoll ymwelwyr: barn defnyddwyr a thrigolion | LLYW.CYMRU

cynnwys yr asesiad o'r effaith economaidd a luniwyd gan yr Athro Calvin Jones o Brifysgol Caerdydd gan ddefnyddio tablau mewnbwn-allbwn.

67. Cafodd asesiadau effaith ar gyfer yr ardoll ymwelwyr eu paratoi a'u cyhoeddi ar dudalennau Llywodraeth Cymru ar 25 Tachwedd. Mae'r rhain yn cwmpasu: Effeithiau Economaidd ac Economaidd-Gymdeithasol ac effeithiau ar Gydraddoldeb, Hawliau Plant a'r Gymraeg sy'n deillio o'r cynigion deddfwriaethol.

### Canlyniad a'r camau nesaf

68. Bydd y ddeddfwriaeth yn mynd drwy'r Senedd er mwyn iddi graffu arni. Os caiff ei phasio, tybiwn y bydd yn cael Cydsyniad Brenhinol yn ystod ail hanner 2025.

69. Bydd swyddogion o Drysorlys Cymru ac ACC yn parhau i weithio gyda'r sector twristiaeth er mwyn ystyried effeithiau a gofynion rhoi ardoll ymwelwyr ar waith yng Nghymru.

## 4. Datblygu'r achos dros ddatganoli treth mewn ffordd glir a sefydlog

### Diben

70. Cyflwyno achos dros ddatganoli treth mewn ffordd glir a sefydlog yng Nghymru[25] a cheisio cytundeb â Llywodraeth y DU ar yr un pryd ynghylch system addas ar gyfer datganoli pwerau trethu newydd i Gymru.

### Cefndir

71. Gall trethiant datganoledig fod yn ysgogiad pwerus o ran dylanwadu ar newid ymddygiad, yn ogystal â chynhyrchu refeniw i gefnogi gwariant cyhoeddus i ddiwallu anghenion Cymru a'n galluogi i ddatblygu trethi mwy graddoledig. Mae hefyd yn ein galluogi i ddatblygu dull mwy strategol o ymdrin â threthiant canolog a lleol yng Nghymru, gan sicrhau y gall ddiwallu anghenion a blaenoriaethau dinasyddion, busnesau a chymunedau yn well.

72. Ers 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ceisio pwerau trethu newydd ar gyfer treth ddatganoledig newydd bosibl ‘ar dir sy'n addas ar gyfer datblygu’, – sef treth ar dir gwag’. Diben treth ar dir gwag fyddai helpu i ddatblygu tir y mae caniatadau eisoes wedi'u rhoi ar ei gyfer neu dir sydd o fewn y cynllun datblygu

---

[25] Rhaglen lywodraethu: diweddariad [HTML] | LLYW.CYMRU

lleol ond nad yw'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Byddai'r dreth newydd yn canolbwyntio ar gymell newid ymddygiad yn hytrach na chodi refeniw.

73. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn ofalus addasrwydd treth ar dir gwag yn dod ag ysgogiad treth ychwanegol i gymell datblygu cynnar gan helpu i gyflawni ein huchelgeisiau o ran tai ac adfywio. Bydd ceisio'r pŵer hefyd yn profi'r mecanwaith yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 y gellir ei ddefnyddio i ddatganoli pwerau trethu newydd.

### Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

74. Mae'r broses o ddatganoli pwerau trethu newydd wedi cymryd sawl blwyddyn. Fodd bynnag, rydym yn croesawu ymgysylltu o'r newydd â Llywodraeth y DU er mwyn trafod cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer treth ar dir gwag.

### Canlyniad a'r camau nesaf

75. Bydd swyddogion yn cydweithio ar fater datganoli cymhwysedd i gyflwyno treth ar dir gwag ac i ystyried sut y gellid gwella'r broses yn y dyfodol. .

## 5.Ystyried yr achos dros ddatblygu trethi amgylcheddol newydd i Gymru, gan weithio gyda Llywodraeth y DU lle y bo'n briodol

### Diben

76. Parhau i ystyried effaith trethi sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig mewn meysydd sydd eisoes wedi'u datganoli, meysydd a gedwir yn ôl, a meysydd trethiant newydd.

### Cefndir

77. Mae ein polisi trethi yn cyflwyno ysgogwr pwysig a allai gael ei ddefnyddio i gefnogi amcanion ehangach y llywodraeth. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ystyried yr achos dros ddatblygu trethi amgylcheddol newydd i Gymru, ac fel ffordd o gefnogi ymdrechion ehangach i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Rydym wedi cymryd gofal i fabwysiadu dull strategol clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan weithio gyda rhanddeiliaid i benderfynu ar yr hyn y dylem ganolbwyntio arno er mwyn cyflawni amcanion polisi a sicrhau'r effaith fwyaf posibl, yn enwedig o ran sicrhau newidiadau parhaol mewn ymddygiad.

## Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

78. Rydym yn cydweithio â llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill i ddatblygu a chyflwyno sawl menter arall er mwyn ein helpu i bontio i economi gylchol a gwneud cynnydd cyflymach tuag at sicrhau Cymru ddiwastraff, carbon sero net. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pecynnu, Cynllun Masnachu Allyriadau Carbon a thracio gwastraff digidol gorfodol.

## Canlyniad a'r camau nesaf

79. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol er mwyn deall effaith mentrau amgylcheddol sy'n cwmpasu'r DU gyfan. Bydd y dystiolaeth hon yn ein helpu i nodi pa gyfleoedd eraill a allai fod i ddatblygu trethi eraill sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd mewn meysydd sydd eisoes wedi'u datganoli, meysydd a gedwir yn ôl, a meysydd trethiant newydd.

## B. Y gwaith parhaus o adolygu polisïau a'u rhoi ar waith mewn perthynas â'n trethi presennol a meysydd polisi cysylltiedig eraill

### 6. Datblygu polisi treth trafodiadau tir

#### Diben

80. Sicrhau bod y Dreth Trafodiadau Tir yn parhau i gyflawni nodau polisi Llywodraeth Cymru, a hefyd yn cyflawni ei phrif ddiben o godi refeniw er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

#### Cefndir

81. Mae'r Dreth Trafodiadau Tir, a godir wrth brynu neu brydlesu tir ac adeiladau, yn dreth a gynlluniwyd yn bennaf i godi refeniw er mwyn helpu i dalu am wariant Llywodraeth Cymru. Gall hefyd gefnogi nodau polisi eraill Llywodraeth Cymru drwy, er enghraifft, ryddhadau, neu addasu'r cyfraddau a godir.

82. Mae'r Dreth Trafodiadau Tir yn ffynhonnell refeniw sylweddol i Lywodraeth Cymru. Cododd y Dreth Trafodiadau Tir refeniw gwerth £270 miliwn yn 2023-24 a rhagamcenir y bydd yn codi £319 miliwn yn 2024-25.

83. Ar gyfer 2025-26 a blynyddoedd dilynol, mae'r rhagolygon ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir, fel y'u nodwyd yn Rhagolwg Trethi Cymru a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr, yn cynnwys refeniw rhagamcanol ychwanegol o ganlyniad i fuddsoddi adnoddau ychwanegol yng ngweithgarwch Awdurdod Cyllid Cymru er mwyn nodi ac unioni pan gyflwynir ffurflenni treth sy'n ceisio tangofnodi trafodiadau ac, yna, adennill symiau'r atebolrwydd i dalu trethi sy'n deillio o hynny.

84. Caiff cyfraddau preswyl uwch o'r Dreth Trafodiadau Tir eu codi ar eiddo preswyl ychwanegol a brynir gan unigolion sydd eisoes yn berchen ar eiddo preswyl, er enghraifft ail gartrefi, eiddo prynu i osod, ac unrhyw annedd a brynir gan gwmni, er enghraifft, nid unigolyn.

85. Cafodd yr adolygiad annibynnol[26] a ystyriodd a yw amcanion y Ddeddf Treth Trafodiadau Tir wedi cael eu cyflawni ac a yw newidiadau a wnaed fel rhan o'r Ddeddf yn parhau i fod yn briodol, ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Chwefror

---

[26] Adolygiad annibynnol: Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 | LLYW.CYMRU

2023. Nododd yr adolygiad fod y bwriadau polisi a oedd yn sail i'r penderfyniadau polisi a wnaed wrth gyflwyno'r Ddeddf Treth Trafodiadau Tir wedi'u cyflawni ar y cyfan a'u bod yn parhau i fod yn briodol. Cafwyd derbyniad cadarnhaol i'r ffordd roedd Awdurdod Cyllid Cymru wedi mynd ati i roi'r Ddeddf ar waith. Bydd dau gasgliad yn yr adroddiad yn effeithio ar y gwaith o ddatblygu polisi Treth Trafodiadau Tir yn y dyfodol, sef: os cafodd amcanion polisi eu llunio'n wreiddiol yn seiliedig ar werthoedd marchnadol a oedd yn gymwys pan wnaed y penderfyniadau hynny, bod yn rhaid i'r amcanion polisi hynny gael eu hadolygu'n rheolaidd ac, os oes angen, eu haddasu yn sgil newidiadau i werthoedd marchnadol (mae a wnelo hyn â chyfraddau a bandiau treth yn bennaf); yn ail, lle y bo'n bosibl, na ddylai newidiadau i'r Dreth Trafodiadau Tir (ar ffurf newidiadau i gyfraddau a bandiau a newidiadau i'r sylfaen drethu) gael eu gwneud ar sail ad hoc ond yn hytrach y dylent gael eu cyhoeddi yng nghyd-destun cylch ffurfiol a rheolaidd ac y dylai'r cylch hwnnw fod yn gymharol anfynych.

**Tystiolaeth a gwaith dadansoddi**

86. Mae ACC yn cyhoeddi data rheolaidd ac amserol ar y Dreth Trafodiadau Tir, yn fisol ac yn chwarterol. O fis Ionawr 2024, dechreuodd ACC gynnwys data blynyddol ar gyfer amrywiaeth o ardaloedd lleol yn eu cyfres o ddata chwarterol, gan roi mynediad mwy amserol at yr wybodaeth honno.

87. Ym mis Gorffennaf 2023, dechreuodd ACC gasglu gwybodaeth am y defnydd arfaethedig o eiddo a brynir mewn trafodiadau cyfraddau uwch. Cyhoeddodd ACC ddata'r flwyddyn gyntaf ar 31 Hydref 2024.

88. Ar lefel genedlaethol, mae'r prif eitemau o ddata yn y datganiad ystadegol ar gyfer 2023-24 yn cynnwys y canlynol:

- Cyflwynwyd mwy na 50,100 o ffurflenni treth gan drethdalwyr.
- roedd treth gwerth cyfanswm o £270 miliwn yn ddyledus.
- roedd treth gwerth £140 miliwn yn ddyledus ar gyfer trafodiadau preswyl. Codwyd £62 miliwn ychwanegol o gyfraddau preswyl uwch.
- roedd treth gwerth £67 miliwn yn ddyledus ar gyfer trafodiadau amhreswyl.

89. Dengys mynegai prisiau tai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol mai pris tŷ pan ddaeth cyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir i rym gyntaf ym mis Ebrill 2018 oedd £154,000,

ar gyfartaledd. Ym mis Medi 2024 y pris cyfartalog oedd £217,000 ac £188,000[27] ar gyfer prynwyr tro cyntaf. Mae'r ddau ffigur hyn islaw'r trothwy cychwynnol ar gyfer prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir, sef £225,000. Dengys data diweddar gan ACC fod tua 60% o drafodiadau preswyl ar gyfer cydnabyddiaeth sydd islaw'r trothwy hwnnw.

**Canlyniad a'r camau nesaf**

90. Mae diwygiadau wedi'u gwneud (drwy reoliadau) i reolau ad-dalu tair blynedd y Dreth Trafodiadau Tir. Bydd y rheolau newydd yn caniatáu i drethdalwyr hawlio ad-daliad o'r cyfraddau preswyl uwch lle maent yn newid eu prif breswylfan a lle maent wedi gwerthu eu prif breswylfan flaenorol fwy na thair blynedd ar ôl prynu'r cartref newydd, os oedd materion diogelwch tân (e.e. cladin anniogel) wedi effeithio ar y cyn-gartref hwnnw a oedd wedi atal y broses werthu rhag cael ei chwblhau'n gyflymach. Daeth y rheolau newydd i rym ar 12 Gorffennaf 2024.

91. Daeth rheoliadau a ddiwygiodd reolau'r Dreth Trafodiadau Tir i ddarparu rhyddhad rhag y Dreth Trafodiadau Tir o fewn safleoedd treth arbennig (megis porthladdoedd rhydd) i rym ar 26 Tachwedd 2024. Ar y dyddiad hwnnw dim ond o fewn safleoedd a ddynodwyd yn rhan o'r Porthladd Rhydd Celtaidd gan Lywodraeth y DU y mae'r rhyddhad hwnnw yn bosibl. Mae'r rhyddhad rhag y Dreth Trafodiadau Tir ar gael i ddechrau tan 30 Medi 2029. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd y rhyddhad ar gael tan 30 Medi 2034 ond dim ond ar ôl adolygiad i gadarnhau bod effeithiau arfaethedig y safleoedd treth arbennig yng Nghymru yn cael eu cyflawni y rhoddir yr estyniad i'r dyddiad hwnnw.

92. Ar 10 Rhagfyr 2024, gosodwyd rheoliadau gerbron y Senedd er mwyn estyn y rhyddhad i gynnwys safleoedd treth arbennig a ddynodwyd yn rhan o Borthladd Rhydd Ynys Môn gan Lywodraeth y DU. Os caiff rhagor o safleoedd treth arbennig eu dynodi, bydd angen gwneud rheoliadau pellach er mwyn ymestyn y rhyddhad.

93. Ar 8 Ebrill 2024, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad a oedd yn ceisio barn ar gynigion i ddiddymu rhyddhad anheddau lluosog, ac i ymestyn un o ryddhadau presennol y Dreth Trafodiadau Tir sydd ar gael i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gynnwys awdurdodau lleol yng Nghymru pan fyddant yn prynu eiddo at ddibenion tai cymdeithasol. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd

[27] UK House Price Index Wales: September 2024 - GOV.UK

yn ceisio barn ar yr opsiynau i ddiwygio'r rheol sy'n gysylltiedig â phrynu chwe annedd neu fwy mewn un trafodiad sy'n trin y trafodiad fel trafodiad amhreswyl, a'r opsiynau i adolygu neu ddiwygio rhyddhadau eraill y Dreth Trafodiadau Tir. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 17 Gorffennaf 2024[28].

94. Caiff rheoliadau drafft eu gosod gerbron y Senedd ar ddechrau 2025 i wneud newidiadau i'r rhyddhad anheddau lluosog. Bwriedir i'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno sicrhau na fyddai hawliadau am ryddhad anheddau lluosog yn cael eu caniatáu pan fo'r Eithriad Is-anheddau yn gymwys, fel y byddai trethdalwyr sy'n destun yr Eithriad Is-anheddau yn talu'r prif gyfraddau preswyl ar gyfanswm y gydnabyddiaeth, heb gael rhyddhad anheddau lluosog.

95. Ochr yn ochr â'r newid hwn, byddwn yn parhau i fonitro'r defnydd a wneir o'r rhyddhad anheddau lluosog, er mwyn ystyried rôl rhyddhad anheddau lluosog ochr yn ochr â mesurau eraill sy'n ymwneud â datblygu polisi Llywodraeth Cymru ar y cyflenwad tai gan gynnwys y potensial i ymestyn rhyddhad rhag y Dreth Trafodiadau Tir i gynnwys awdurdodau lleol sy'n prynu eiddo ar gyfer tai cymdeithasol.

96. Ar 10 Rhagfyr 2024, drwy reoliadau, cyflwynodd Gweinidogion Cymru gyfraddau newydd ar gyfer y cyfraddau preswyl uwch a ddaw i rym ar 11 Rhagfyr 2024. Gwnaed y cyfraddau newydd drwy reoliadau a oedd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'. Mae'r rheoliadau hynny yn cynyddu'r gyfradd a godir ar gyfer pob band un pwynt canrannol. Er mwyn iddynt barhau mewn grym, rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r rheoliadau o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y gwnaed y rheoliadau heb gynnwys, yn fras, unrhyw ddiwrnod toriad, gyda'r bleidlais yn cael ei chynnal yng nghanol mis Ionawr 2025.

97. Noda Llywodraeth Cymru gasgliad yr adolygiad annibynnol o'r Ddeddf Treth Trafodiadau Tir ac mae'n awyddus i roi'r argymhellion ar waith gan sicrhau, ar yr un pryd, fod y Dreth Treth Trafodiadau Tir yn gweithio'n briodol i drethdalwyr Cymreig. Cyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, cafodd prif gyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir eu diwygio ym mis Hydref 2022. Gwnaed y newid mewn ymateb i ddigwyddiad cyllidol i'r DU ac ystyriwyd ei bod yn briodol i'r newid gael ei wneud mor agos â phosibl i ddigwyddiad y DU er mwyn rhoi sicrwydd i drethdalwyr Cymreig. Tra mai'r dull gweithredu a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2020 oedd i Lywodraeth Cymru, gyda chymeradwyaeth y Senedd, wneud

---

28 Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad: crynodeb o'r ymatebion [HTML] | LLYW.CYMRU

newidiadau i gyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir ar adeg llunio'r gyllideb ddrafft.

98. Gwnaed y rheoliadau sy'n ymwneud â'r diwygiadau i'r rheolau ad-dalu tair blynedd y tu allan i ddigwyddiad cyllidol Cymreig er mwyn rhoi'r cyfle i gael ad-daliad cyn gynted â phosibl i drethdalwyr Cymreig yr effeithir arnynt, yn hytrach nag aros tan y gyllideb ddrafft.

99. Gwnaed y rheoliadau cychwynnol i gyflwyno'r rhyddhad ar gyfer safleoedd treth arbennig y tu allan i ddigwyddiad cyllidol Cymreig hefyd. Yn yr achos hwn, roedd yn bwysig bod y rhyddhad rhag y Dreth Trafodiadau Tir, fel rhan allweddol o'r rhaglen porthladdoedd rhydd, ar gael cyn gynted â phosibl, yn hytrach nag aros am y digwyddiad cyllidebol drafft, terfynol neu atodol priodol.

100. Ar adeg cyflwyno cyllideb ddrafft 2025-26 ar 10 Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg gyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir a gwnaeth newidiadau iddynt a chyhoeddodd newidiadau arfaethedig i'r rheolau ynglŷn â rhyddhad anheddau lluosog hefyd. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn dilyn yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad annibynnol i: adolygu cyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir yn barhaus er mwyn ymateb i bris eiddo (yn arbennig eiddo preswyl) a, lle y bo'n briodol, bod materion sy'n ymwneud â'r Dreth Trafodiadau Tir yn cael eu gwneud, neu eu cyhoeddi, ar adeg llunio'r gyllideb ddrafft.

101. Byddwn yn parhau i adolygu'r cyfraddau a'r bandiau, a'r rheolau yn fwy cyffredinol, er mwyn sicrhau bod y Dreth Trafodiadau Tir yn parhau i gyflawni nodau polisi Llywodraeth Cymru ac yn cynhyrchu refeniw ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus pwysig.

## 7. Datblygu polisi treth gwarediadau tirlenwi

### Diben

102. Sicrhau bod polisi Treth Gwarediadau Tirlenwi yn gweithredu fel y'i bwriadwyd, ac ystyried cyfleoedd i'r dreth gefnogi amcanion polisi ehangach y llywodraeth.

### Cefndir

103. Cyflwynodd Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 gyfradd dreth safonol ac is sy'n berthnasol i warediadau ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig. Mae'r gyfradd is yn gymwys i ddeunyddiau sy'n bodloni'r amodau a nodir yn y Ddeddf honno ac mae'r gyfradd safonol yn gymwys i'r holl ddeunyddiau eraill.

Hefyd, cyflwynodd y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi drydedd cyfradd dreth ar gyfer gwastraff a waredir mewn lleoedd ar wahân i safleoedd tirlenwi awdurdodedig, a elwir yn gyfradd gwarediadau anawdurdodedig.

104. Mae ACC wedi bod yn casglu ac yn rheoli'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn llwyddiannus ers iddi gael ei chyflwyno ym mis Ebrill 2018. Hyd yma, mae cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cyfateb i gyfraddau'r Dreth Dirlenwi yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae pennu cyfraddau sy'n gyson â'r Dreth Dirlenwi wedi sicrhau bod Cymru yn parhau i fanteisio ar refeniw treth a bydd llai o risg y caiff gwastraff ei symud ar draws ffiniau. Caiff y dull gweithredu hwn ei adolygu bob blwyddyn fel rhan o'r broses flynyddol o bennu cyfraddau, lle rhoddir ystyriaeth i'r manteision a'r anfanteision sydd ynghlwm wrth newid y cyfraddau yn y dyfodol er mwyn hyrwyddo amcanion amgylcheddol ehangach. Er bod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn codi refeniw i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus, treth ymddygiadol ydyw yn bennaf. Ei phrif amcan yw lleihau faint o ddeunyddiau sy'n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi yng Nghymru a, thrwy hynny, helpu i newid i economi fwy cylchol lle y caiff adnoddau eu defnyddio'n gyson ac y caiff gwastraff ei osgoi. Wrth i ymddygiad newid, disgwylir i refeniw leihau, wrth i lai o wastraff gael ei anfon i safleoedd tirlenwi.

**Tystiolaeth a gwaith dadansoddi**

105. Caiff y dull o bennu cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ei lywio gan egwyddorion treth Llywodraeth Cymru a'r amcan i leihau'r gwastraff a waredir ar safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr a'r diwydiant gwastraff ehangach wedi bod yn ffactor allweddol hefyd wrth bennu'r cyfraddau hyd yma. Y dull gweithredu a fabwysiadwyd gennym oedd mai dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru, a'r egwyddor o godi refeniw i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl y dylai cyfraddau treth fod yn wahanol i gyfraddau'r trethi rhagflaenol.

106. Mae canfyddiadau'r adolygiad annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ein helpu i ddeall effaith cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar ymddygiadau hyd yma. Canfu'r adolygiad fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gyson iawn â pholisïau a blaenoriaethau amgylcheddol Llywodraeth Cymru a nododd ei rôl fel rhan o becyn o fesurau polisi sydd, gyda'i gilydd, yn dargyfeirio gwastraff i ffwrdd o safleoedd tirlenwi ac i fyny'r hierarchaeth gwastraff.

107. Fodd bynnag, tynnodd yr adolygiad sylw hefyd at y ffaith, yn achos sawl ffrwd wastraff, nad yw cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn atal gwastraff rhag cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. At hynny, nododd yr adolygiad fod tystiolaeth

bod y bwlch rhwng cyfraddau is a chyfraddau safonol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cyfrannu at gamddosbarthu gwastraff.

108. Gwnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi[29], a ddaeth i ben ym mis Medi 2024. Cyhoeddwyd canlyniad yr ymgynghoriad ar 10 Rhagfyr 2024 ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26.

109. Byddwn yn monitro effaith y newidiadau i'r cyfraddau treth er mwyn canfod a oes unrhyw effaith amlwg ar faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi ac ystyried hyn wrth bennu cyfraddau yn y dyfodol. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn gweithio gydag ACC, yn ogystal â Cyfoeth Naturiol Cymru, ar ddosbarthu mathau gwahanol o wastraff yn dilyn yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

110. Mae cyfradd gwarediadau anawdurdodedig y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi'i phennu ar 150% o gyfradd safonol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi er mwyn atal gwarediadau anawdurdodedig sy'n fwy tebygol o gael effaith negyddol ar yr amgylchedd a'n cymunedau. Mae'n hyrwyddo tegwch i weithredwyr cyfreithlon ac yn cyfrif am gostau gorfodi ACC. Dylai annog gweithredwyr anghyfreithlon i reoli eu gwastraff yn fwy cynaliadwy drwy o leiaf fynd ag ef i safle tirlenwi awdurdodedig a thalu cyfran deg o dreth, sy'n cefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae ACC wedi codi treth ar sawl achos o warediadau anawdurdodedig ac roedd wedi gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i wella dulliau mesur gwastraff a'r broses o atgyfeirio achosion.

[29] Cyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | LLYW.CYMRU

## Canlyniad a'r camau nesaf

111. Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 yn nodi ein bwriad i gynyddu cyfradd safonol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi 22% ar 1 Ebrill 2025. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu newidiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) gwirioneddol rhwng 2022 a 2024 ar ôl sawl blwyddyn pan gafodd ei phennu ar sail RPI rhagamcanol. Y nod yw rhoi cymhelliant i fabwysiadu dulliau rheoli gwastraff amgen a buddsoddi mewn seilwaith economi gylchol. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â chynnydd Llywodraeth y DU yng nghyfradd safonol y Dreth Dirlenwi ac, felly, mae'n cyfyngu ar y cymhelliant dros dwristiaeth wastraff.

112. Bwriedir cynyddu'r gyfradd is i lefel sydd gryn dipyn yn uwch na'i chyfradd ar gyfer 2024-25 drwy sicrhau ei bod yn cyfateb i 5% o'r gyfradd safonol.

113. Mae cynnydd yng nghyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer 2025-26 sydd gryn dipyn yn uwch na RPI a'r penderfyniad i bennu cyfradd wahanol i gyfradd is y Dreth Dirlenwi yn Lloegr, yn adlewyrchu tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg nad oedd y gyfradd is yn cyfrannu mor effeithiol ag y dylai at newid ymddygiad. Bydd y gyfradd is yn parhau i gael ei monitro er mwyn asesu pa mor effeithiol oedd newid y gyfradd o ran newid ymddygiadau a chyfrannu at nodau amgylcheddol ehangach a byddwn yn myfyrio ar y dystiolaeth honno cyn ymarfer cyllidebol y flwyddyn nesaf.

114. Byddwn hefyd yn parhau i werthuso tystiolaeth arall a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad ar gyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi er mwyn asesu pa mor briodol yw'r deunyddiau sy'n ddeunyddiau cymwys ar gyfer y gyfradd is, gan gynnwys asesu a ddylid trin unrhyw ddeunyddiau nad ydynt yn cael eu trin fel deunyddiau cymwys ar hyn o bryd fel deunyddiau cymwys.

115. Byddwn yn parhau i wella ein dealltwriaeth o faterion allweddol sy'n ymwneud â rheoli a gwaredu gwastraff drwy ein cydberthnasau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chydberthnasau â'n partneriaid allweddol yn ACC a Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd hyn yn cefnogi'r broses barhaus o ddatblygu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i gyfrannu at gyflawni ein nod o sicrhau Cymru ddiwastraff.

## 8. Datblygu'r sylfaen drethu Gymreig

### Diben

116. Sicrhau bod yr effeithiau byrdymor, tymor canolig a hirdymor ar y sylfaen drethu Gymreig yn cael eu hystyried wrth fynd ati i ddatblygu polisïau Llywodraeth Cymru.

### Cefndir

117. Mae'r sylfaen drethu yn chwarae rôl hollbwysig yn llesiant economaidd a sefydlogrwydd cyllidol Cymru. Mae'n gonglfaen ar gyfer cynhyrchu refeniw, meithrin datblygu economaidd a chefnogi gwasanaethau cyhoeddus. Mae datblygu ein sylfaen drethu a chynyddu ein hymreolaeth gyllidol yn galluogi Cymru i wneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â'i demograffeg a'i blaenoriaethau economaidd a chymdeithasol unigryw.

118. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ymrwymiad i ystyried ffyrdd newydd o gynyddu ein sylfaen drethu ac ystyried goblygiadau unrhyw argymhellion gan y Comisiwn Cyfansoddiadol o ran cyllid.

### Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

119. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn amcangyfrif mai poblogaeth Cymru yng nghanol 2023 oedd 3.2 miliwn (3,164,400), sef cynnydd o 1.0% (+31,700) o gymharu â chanol 2022. Fel y gwelwyd ers 2015/16, bu mwy o farwolaethau na genedigaethau dros y flwyddyn (37,100 o gymharu â 27,600) ond amcangyfrifir bod poblogaeth Cymru wedi cynyddu oherwydd mudo net i mewn i Gymru o weddill y DU (+17,600) a mudo rhyngwladol net (+23,600).[30]

120. Prif amcanestyniadau poblogaeth y SYG yw y bydd poblogaeth Cymru yn parhau i heneiddio dros y degawd nesaf. Rhagamcenir y bydd yr oedran cymedrig(canolrifol) yn cynyddu o 43.1(42.9) yn 2024 i 44.4(44.0) yn 2034. Rhagamcenir y bydd nifer y dibynyddion o oedran pensiwn fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio (rhwng 16-64 oed) yn cynyddu o 329 yn 2024 i 369 ar ddechrau 2040 cyn gostwng unwaith eto yn ddiweddarach yn y degawd ac, yna, dechrau cynyddu eto ar ddechrau'r 2050au.

[30] Caiff yr amcangyfrif hwn ei ddiwygio yn ystod y flwyddyn nesaf wrth i ddata newydd fod ar gael ac wrth i'r SYG barhau i wneud gwelliannau i'w hamcangyfrifon o fudo rhyngwladol.

121. Yn 2023, gostyngodd cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb[31] yng Nghymru a Lloegr i 1.44 o blant fesul menyw, sef ei gwerth isaf ers i gofnodion ddechrau yn 1938; Yng Nghymru a gogledd-orllewin Lloegr y cofnodwyd y gostyngiadau mwyaf yng nghyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb o gymharu â 2022.

122. Yn 2023, cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yng Nghymru oedd 1.39; sydd islaw'r gyfradd sydd ei hangen i gynnal maint poblogaeth Cymru, heb fudo, (‘y gyfradd amnewid’) sef 2.1 o blant fesul menyw ac mae'n is na'r gyfradd ym mhob un o ranbarthau Lloegr heblaw Llundain a'r de-orllewin.

123. Ers yr adroddiad diwethaf ar bolisi trethi, mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi ei hadolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol am effeithiolrwydd polisïau i fynd i'r afael â'r materion sy'n deillio o boblogaeth sy'n heneiddio neu'n lleihau.[32]

124. Un o'r prif ffactorau sy'n sail i gryfder sylfaen drethu Cymru yw perfformiad y farchnad lafur yng Nghymru. Ar hyn o bryd, rhaid bod yn ofalus wrth asesu beth sy'n digwydd i'r farchnad lafur yng Nghymru oherwydd y ffynonellau data gwahanol a'u tueddiadau. Caiff y prif ystadegau ar gyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd eu cynhyrchu gan y SYG o'r Arolwg o'r Llafurlu. Fodd bynnag, mae data o'r Arolwg o'r Llafurlu yn arbennig o anwadal ar hyn o bryd, gyda rhai newidiadau mawr i'w gweld rhwng cyfnodau. Mae'n bosibl nad yw'r rhain yn cynrychioli'r hyn sy'n digwydd yn y farchnad lafur ar hyn o bryd.[33]

125. Y ffordd orau o ddeall y farchnad lafur yng Nghymru yw ystyried tueddiadau tymor hwy ar draws nifer o ddangosyddion. Mae hyn yn cynnwys ffynonellau amgen megis yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, gwybodaeth amser real CThEF am gyflogeion taledig, data ar swyddi'r gweithlu a nifer yr hawlwyr.

126. Mae tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau – megis yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, data CThEF, Swyddi'r Gweithlu a nifer yr hawlwyr – i gyd yn awgrymu bod y farchnad lafur yng Nghymru wedi dilyn tueddiadau tebyg i'r DU

---

[31] Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yw nifer cyfartalog y plant byw y byddai grŵp o fenywod yn eu geni petaent yn profi cyfraddau ffrwythlondeb oedran-benodol y flwyddyn galendr dan sylw drwy gydol eu rhychwant oes geni plant.
[32] WCPP-Population-ageing-and-decline-report-December-2023.pdf
[33] Mae'r SYG yn dosbarthu ystadegau'r farchnad lafur bresennol yn ‘ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu’. Mae'r SYG yn parhau â'i gwaith i wella ei amcangyfrifon ar gyfer y farchnad lafur a disgwylir i ffynhonnell data fwy cadarn gael ei darparu drwy ei Harolwg o'r Llafur wedi'i Drawsnewid. Disgwylir diweddariad ar yr Arolwg o'r Llafurlu wedi'i Drawsnewid ar ddechrau 2025.

ers y pandemig. Dengys data gweinyddol gan CThEF fod nifer y cyflogeion taledig wedi cynyddu, ar y cyfan, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf gydag 1.32 miliwn o gyflogeion taledig yn cael eu cofnodi yng Nghymru ym mis Awst 2024.

127. Mae'r duedd tuag i lawr o ran cyfran y bobl o oedran gweithio yng Nghymru nad ydynt yn gweithio nac yn chwilio am waith (‘pobl economaidd anweithgar’) a welwyd yn ystod y 2010au wedi dod i ben ac mae wedi gwrthdroi'n rhannol ers dechrau pandemig y Coronafeirws. Dengys gwaith dadansoddi gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fod cynhyrchiant is ac enillion is cysylltiedig yn ffactorau allweddol sy'n cyfrif am y swm is o dreth incwm a delir y pen yng Nghymru o gymharu â'r DU[34]. Caiff tueddiadau o ran anweithgarwch economaidd, cynhyrchiant ac enillion eu dadansoddi'n fanylach yn Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.[35]

### Canlyniad a'r camau nesaf

128. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflwyno'r achos dros system fudo sy'n cydnabod amodau demograffig ac economaidd yng Nghymru. Rhoddodd Llywodraeth flaenorol y DU sawl newid i'r system fewnfudo ar waith, gan gynnwys gwahardd unigolion ar Fisâu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Fisâu Myfyrwyr rhag dod â dibynyddion i'r wlad. Gwnaed y newidiadau hyn heb ymgynghori nac ymgysylltu ymlaen llaw â'r llywodraethau datganoledig ond gallent gael effaith ar economïau a chyfrifoldebau datganoledig. Mae Llywodraeth newydd y DU wedi ymrwymo i wella prosesau ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig er mwyn trafod meysydd o'r fath.

129. Mae Cenhadaeth Economaidd Llywodraeth Cymru yn nodi sut mae'n helpu i gau'r bwlch sgiliau a chefnogi swyddi gwell, gyda'n Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau yn rhoi blaenoriaeth i'r rhai y mae angen cymorth arnynt fwyaf. Mae hyn yn cynnwys helpu pobl i aros mewn gwaith a'r rhai sydd ymhellach i ffwrdd o'r farchnad lafur i ddod o hyd i waith.

130. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn rhoi amrywiaeth o fesurau sydd wedi'u hanelu at anweithgarwch economaidd ledled Cymru ar waith.

---

[34] Publication of Working paper No. 21: Developments in devolved income tax - Office for Budget Responsibility

[35] https://www.gov.wales/wales-economic-and-fiscal-report-2024

131. Ariannodd Llywodraeth Cymru raglen Cymunedau am Waith a Mwy sy'n gweithio mewn partneriaeth â phob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, er mwyn darparu gwasanaeth mentora cymunedol, hyfforddiant a chymorth ariannol i fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth. Ers ei lansio ym mis Ebrill 2018, mae'r rhaglen wedi cefnogi mwy na 62,000 o bobl, y mae 27,000 ohonynt wedi cael gwaith am fwy nag 16 awr yr wythnos.

132. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu Twf Swyddi Cymru + sy'n darparu pecyn cymorth unigoledig er mwyn helpu pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial a chymryd eu camau cyntaf i fyd gwaith ac, felly, osgoi'r posibilrwydd o fod yn economaidd anweithgar. Mae mwy na 12,000 o bobl ifanc wedi manteisio ar y rhaglen ers ei lansio yn 2022.

133. Mae Gwasanaeth Di-waith a Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi'r rhai sy'n economaidd anweithgar yn uniongyrchol. Mae'r Gwasanaeth Di-waith yn helpu pobl i ddod o hyd i waith os ydynt yn economaidd anweithgar neu'n ddi-waith yn yr hirdymor, os nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu os ydynt yn gwella ar ôl cael problemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau. Mae'r Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith yn rhoi cymorth i'r rhai sy'n absennol o'r gwaith; neu sy'n wynebu risg o fod yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch corfforol neu salwch meddwl. Mae wedi'i anelu at gyflogeion BBaChau yn y sector preifat a'r trydydd sector. Mae cymorth hefyd ar gael er mwyn i fusnesau fabwysiadu newidiadau cadarnhaol mewn arferion, polisïau a chanllawiau Iechyd a Llesiant.

134. Ers i Raglen y Model Gweithredu Sengl gael ei chreu yn gynharach eleni, mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bod yn bwriadu datganoli cyllid cymorth cyflogaeth nad yw'n gysylltiedig â Chanolfan Byd Gwaith er mwyn inni allu llunio darpariaeth gwaith, iechyd a sgiliau gydgysylltiedig i bobl leol. Wrth i Lywodraeth Cymru ddechrau ei thrafodaethau â'r Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch datganoli bydd yn dwyn ynghyd y Model Gweithredu Sengl a'r broses o ddatganoli cyllid cymorth cyflogaeth nad yw'n gysylltiedig â Chanolfan Byd Gwaith yn un Rhaglen.

135. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Fforwm Cynhyrchiant Cymru, dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, ar roi gwybodaeth a gafwyd o ymchwil ar

waith a llunio ymyriadau busnes a pholisi ymarferol er mwyn gwella cynhyrchiant yng Nghymru.[36]

## 9. Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru

### Diben

136. Sefydlu saernïaeth hirdymor i Weinidogion Cymru a'r Senedd wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, gyda phwerau i wneud rheoliadau mewn ymateb i amgylchiadau allanol sy'n effeithio ar Ddeddfau Trethi Cymru.

### Cefndir

137. Pasiodd y Senedd Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 ym mis Gorffennaf 2022. Cafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2022. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r adnoddau cywir i Weinidogion Cymru ymateb i amgylchiadau allanol penodol a allai effeithio ar Ddeddfau Trethi Cymru.

138. Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio pwerau i wneud rheoliadau i ymdrin â digwyddiadau annisgwyl, megis dyfarniadau llys, elfennau amwys neu newidiadau mewn trethi a gedwir yn ôl cyfatebol sydd ar waith yn Lloegr, a allai gael effaith sylweddol ar rwymedigaethau unigolion ac ar ein refeniw.

### Canlyniad a'r camau nesaf

139. Gwnaed sawl gwelliant yn ystod Cyfnodau'r Bil. Yn bwysicaf oll, cyflwynwyd cymal machlud. Mae'n gymwys bum mlynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym (y diwrnod ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol). Felly, ni fydd yn bosibl gwneud rheoliadau newydd gan ddefnyddio'r pŵer a roddir o dan y Ddeddf ar ôl 7 Medi 2027. Caiff Gweinidogion Cymru osod rheoliadau gerbron y Senedd a fydd yn ymestyn y cyfnod y gellir gwneud rheoliadau gan ddefnyddio'r pŵer yn y Ddeddf, hyd at 30 Ebrill 2031 (sef diwedd tymor y Seithfed Senedd).

140. At hynny, diwygiwyd y Ddeddf er mwyn cynnwys rhwymedigaeth i Weinidogion Cymru adolygu'r ffordd y rhoddir y Ddeddf ar waith a'i heffaith a chyhoeddi casgliadau'r adolygiad hwnnw. Mae'n rhaid cyhoeddi casgliadau'r adolygiad erbyn 7 Medi 2026. Rhaid i'r adolygiad hwnnw hefyd gynnwys asesiad gan

[36] Wales Productivity Forum - The Productivity Institute

Weinidogion Cymru o fecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer newid Deddfau Trethi Cymru a rheoliadau a wneir o dan unrhyw un o'r Deddfau hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau cynllunio'r gwaith i gefnogi Gweinidogion Cymru gyda'u hadolygiad a bydd gweithgarwch ymgysylltu ynghylch y mecanweithiau amgen yn dechrau yn ystod hanner cyntaf 2025.

141. Nid yw'r pŵer a roddir o dan y Ddeddf wedi cael ei ddefnyddio gan Weinidogion Cymru eto.

## C. Ffocws parhaus ar weithio gyda phartneriaid a dinasyddion er mwyn i'n dull Cymreig o ymdrin â threthi ymwreiddio, a chodi ymwybyddiaeth o drethi Cymru

### 10. Rheoli trethi Cymru ar y cyd â'n partneriaid o fewn cyd-destun ehangach y DU ac yn rhyngwladol

#### Diben

142. Sefydlu dull Cymreig o reoli trethi Cymru sy'n adlewyrchu'r sbectrwm llawn o gyfrifoldebau a gweithgareddau y mae gweinyddwyr trethi yn eu cyflawni/mynd i'r afael â nhw ar lefelau cenedlaethol a lleol, a chydnabod rhyngberthnasau o fewn system drethu'r DU.

#### Cefndir

143. Yng Nghymru, mae pum treth ar waith lle mae rhywfaint o gyfrifoldeb wedi'i ddatganoli mewn perthynas â nhw, a gesglir gan wahanol awdurdodau treth:

- Y ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn, sef y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, sy'n cael eu casglu a'u rheoli gan ACC.
- Treth incwm sydd wedi'i ddatganoli'n rhannol, sef CTIC, sy'n cael ei chasglu gan CThEF ar ran Llywodraeth Cymru.
- Y ddwy dreth leol, sef y dreth gyngor ac ardrethi annomestig, sy'n cael eu casglu gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

144. Er bod y gwahanol awdurdodau casglu trethi wedi datblygu mewn ffyrdd gwahanol, ac yn cael eu cefnogi a'u llywio gan amrywiaeth o strwythurau, prosesau a gofynion gwahanol ac, felly, ffyrdd gwahanol o weithio gwahanol, mae cyfle i ystyried dull mwy strategol, cydlynol a phenodol o weinyddu trethi yng Nghymru.

#### Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

145. Rydym wedi parhau i adeiladu ar ein partneriaeth bolisi ag ACC. Mae'r bartneriaeth bolisi yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth datblygu polisi trethi sy'n cyd-fynd â'r ffordd rydym yn mynd ati i gasglu ac yn rheoli trethi datganoledig yng Nghymru. Mae hon yn elfen allweddol o'r broses o ddatblygu'r Ffordd Gymreig o Drethu, gan sicrhau bod yr ystyriaethau o ran polisi a gweithredu

trethi yng Nghymru wedi'u hymgorfffori yn y dull cynllunio a datblygu o'r cychwyn cyntaf.

146. Mae'r gwaith partneriaeth ag ACC i ddatblygu'r broses o lunio a chyflwyno'r Ardoll Ymwelwyr wedi bod yn arbennig o bwysig yn ystod y flwyddyn hon. Rydym yn datblygu fframwaith a threfniadau gweinyddu cenedlaethol a fydd yn cefnogi'r broses weithredu ar lefel awdurdod lleol unigol, sy'n newydd. Mae'n creu cyfleoedd yn ogystal â heriau sy'n parhau i gael eu hystyried gan ddefnyddio profiad gweithredol a thechnegol ACC o gasglu a rheoli trethi.

**Canlyniad a'r camau nesaf**

147. Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i atgyfnerthu'r saernïaeth sy'n sail i'n trefniadau partneriaeth ag ACC. Gan fod gwaith ar yr Ardoll Ymwelwyr yn canolbwyntio mwy ar bartneriaeth gyflawni ag ALlau, mae'n bwysig sicrhau bod y broses o gyflwyno'r gwasanaeth newydd hwn a'r trefniadau sy'n sail iddo yn mynd rhagddi mor ddidrafferth ac effeithiol â phosibl. Hefyd, dylem ddefnyddio'r datblygiadau hyn i adeiladu ar y Ffordd Gymreig o Drethu, gan adlewyrchu'r cryfderau a'r cyfleoedd sy'n deillio o hynny i lunio ein polisi trethi a'n darpariaeth yng Nghymru.

## 11. Cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o drethi yng Nghymru drwy weithgareddau ymgysylltu ehangach

**Diben**

148. Codi ymwybyddiaeth o drethi datganoledig, a'r gydberthynas rhyngddynt hwy ac ystyriaethau a phrosesau cyllidebol Llywodraeth Cymru a digwyddiadau polisi cyllidol Cymreig eraill.

**Cefndir**

149. Rydym wedi parhau i ddatblygu gwaith i ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth o drethi datganoledig yng Nghymru a'n rôl ehangach o ran cefnogi buddiannau Cymru mewn materion sy'n ymwneud â threth.

150. Mae ymgysylltu a chydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid allweddol yn hanfodol i lunio a datblygu'r trethi presennol a threthi newydd er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni ein hegwyddorion treth a'n buddiannau polisi ehangach, gan gydnabod y nodweddion a'r ystyriaethau penodol sy'n gysylltiedig â'r dreth.

**Tystiolaeth a Gwaith Dadansoddi**

151. Ar 18 Gorffennaf, gwnaethom gynnal ein cynhadledd dreth flynyddol yng Nghaerdydd. Dyma ein prif ddull o ymgysylltu â'r amrywiaeth eang o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn polisi trethi yng Nghymru. Gwnaethom benderfyniad gwybodus eleni i ehangu cwmpas y digwyddiad er mwyn cydnabod treth yn y fframwaith cyllidol ehangach. Denodd y digwyddiad fwy na 100 o bobl â diddordeb mewn polisi trethi a pholisi cyllidol, a gafodd amrywiaeth eang o gyflwyniadau gan siaradwyr o Gymru, y DU a gwledydd tramor.

152. Rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Awdurdodau Lleol, y Sefydliad Siartredig Trethiant a chymdeithasau masnach perthnasol lle y ceir meysydd penodol o ddiddordeb.

153. Gwnaethom gyhoeddi dau ymgynghoriad yn ystod y flwyddyn er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ynghylch meysydd trethiant penodol, yn gyntaf mewn perthynas â rhyddhadau penodol sy'n ymwneud â'r Dreth Trafodiadau Tir ac yn ail mewn perthynas â chyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Gwnaethom gyhoeddi ein hymatebion i'r ddau ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru[37].

154. Mae ein gwaith ar ymwybyddiaeth ac ymgysylltu wedi canolbwyntio'n benodol ar y cynlluniau ar gyfer Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru. Comisiynwyd ymchwil defnyddwyr bwrpasol er mwyn cael rhyw syniad o farn trigolion Cymru a defnyddwyr gwyliau domestig y DU. Cwblhawyd yr arolwg gan fwy na 2,500 o ymatebwyr. Ar y cyfan, roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cefnogi egwyddor ardoll ymwelwyr[38].

155. Ym mis Gorffennaf 2023, cynhaliodd swyddogion weithdai ym mhob rhanbarth, er mwyn adolygu'r model llywodraethu a gweinyddu ardoll ymwelwyr, yn yr ysbryd parhaus o gydweithio a llunio polisi ar y cyd ag awdurdodau lleol.

156. At hynny, rydym wedi ymgysylltu â'r sector twristiaeth drwy Fforwm yr Economi Ymwelwyr a Fforymau Twristiaeth Rhanbarthol. Ers hynny, mae gweithgarwch ymgysylltu wedi digwydd ar ôl yr ymgynghoriad drwy Weithgor yr Ardoll Ymwelwyr sy'n cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau yn y sector twristiaeth,

[37] Adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ryddhadau'r dreth trafodiadau tir Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad: crynodeb o'r ymatebion [HTML] | LLYW.CYMRU
Cyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | LLYW.CYMRU
[38] Ymchwil ardoll ymwelwyr: barn defnyddwyr a thrigolion | LLYW.CYMRU

arbenigwyr ym maes trethi a darparwyr llety ymwelwyr. Byddwn yn ymgynghori â nhw ar ganllawiau arfaethedig unwaith y bydd holl fanylion y Bil wedi'u cyhoeddi.

157. Rydym yn cydweithio â chydweithwyr, arbenigwyr academaidd a rhanddeiliaid eraill er mwyn asesu'r effeithiau economaidd y gallai rhoi ardoll ymwelwyr ar waith yng Nghymru eu cael, yn ogystal ag effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ehangach.

158. Ochr yn ochr â gweithgareddau ymgysylltu mewn perthynas â'n trethi datganoledig, rydym hefyd wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU ynghylch buddiannau Cymru mewn perthynas â threthi annatganoledig. Mae'r trethi hyn yn cael effaith uniongyrchol ar fywydau holl ddinasyddion y DU ac, felly, maent yn bwysig i Gymru yn ogystal â gweddill y DU.

159. Mae gan Drysorlys Cymru gydberthynas waith adeiladol a rhagweithiol â CThEF a Thrysorlys Ei Fawrhydi, ac mae'n ymgysylltu â nhw yn rheolaidd er mwyn trafod amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â threthi a gedwir yn ôl. Ein nod yw deall cynlluniau trethiant Llywodraeth y DU a sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried.

160. Rydym wedi bod yn cydweithio er mwyn sicrhau:

- y caiff buddiannau trethdalwyr Cymreig eu hystyried mewn deddfwriaeth i'r DU gyfan.
- Nad yw trethdalwyr Cymreig yn cael eu rhoi o dan anfantais yn anfwriadol gan unrhyw ddeddfwriaeth i'r DU sy'n ymwneud â threthi a gedwir yn ôl.
- Bod mentrau Llywodraeth Cymru yn cael yr un driniaeth dreth â mentrau cyfatebol yng ngweddill y DU.

161. Mae'r dull hwn o weithredu wedi ein helpu i sicrhau cydraddoldeb â gweddill y DU o ran triniaeth TAW yng Nghymru ar gyfer gwaith cladin a gwaith cyweirio adeiladau arall a bod mentrau llesiant a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn ddi-dreth lle y bo'n briodol a lle mae mentrau lleol tebyg yn esempt rhag talu treth yn Lloegr.

162. Mae gan Drysorlys Cymru ddwy sianel X, sef @TrysorlysCymru ac @WelshTreasury, ac mae'n cyhoeddi cynnwys ar safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet ar faterion cyllidol, Cyllideb Cymru, Trethi Cymru, cydweithio â'r llywodraethau datganoledig eraill a datganiadau polisi a gwariant Llywodraeth

Cymru. Mae nifer y dilynwyr wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf a bellach mae gan @TrysorlysCymru tua 8,040 o ddilynwyr ac mae gan @WelshTreasury tua 1,750 o ddilynwyr.

**Canlyniad a'r camau nesaf**

163. Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Parhau i ddefnyddio digwyddiadau cyllidol allweddol, megis cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 10 Rhagfyr 2024, i godi ymwybyddiaeth o'r ffordd y caiff arian ei godi a'i wario yng Nghymru.

- Defnyddio'r adborth o'n cynhadledd dreth fwyaf diweddar er mwyn ystyried y gwaith cynllunio ar gyfer ein digwyddiad nesaf.

- Parhau i weithio'n adeiladol gyda CThEF a Thrysorlys Ei Fawrhydi ar faterion treth a gedwir yn ôl.

- Cynnal ein cydberthnasau allweddol â swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

- Ystyried trethi datganoledig fel ysgogydd posibl ar gyfer gwaith cynllunio a chymhwysedd cyllidol hirdymor, drwy waith yr Adolygiad o Wariant Cymru.

## Atodiad 1:Talfyriadau

| | |
|---|---|
| ACC | Awdurdod Cyllid Cymru |
| CTIC | Cyfraddau Treth Incwm Cymru |
| CThEF | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi |
| LTTA | Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 |
| RPI | Mynegai Prisiau Manwerthu |
| SYG | Swyddfa Ystadegau Gwladol |

## Atodiad 2:  Manylion cyswllt

Mae rhagor o wybodaeth am drethi Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

https://llyw.cymru/trethi-cymru

https://gov.wales/welsh-taxes

Gallwch gysylltu â ni:

drwy gyfrifon X Trysorlys Cymru:

@TrysorlysCymru

@WelshTreasury

neu drwy anfon e-bost:

TrysorlysCymru@llyw.cymru

WelshTreasury@gov.wales